PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 27 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Ian Arundale(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bale, Cowan, Lay, McGarry, Dianne Rees a/ac Singh |

78 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Cunnah a Howells.

79 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd D.Hugh Thomas fuddiant yn Eitem Agenda 7.2 fel aelod o Gorff Llywodraethu corff Derbyniedig Cynllun Pensiwn Caerdydd A'r Fro
Datganodd y Cynghorydd Bale fuddiant yn eitem Agenda 7.2 fel aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd A'r Fro.

80 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2018 gan y Pwyllgor fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

Cofnod 70, tudalennau 13 a 14:

Trydydd paragraff: dileu'r frawddeg olaf: 'nifer o fecanweithiau samplo...tenantiaid' a rhoi 'Dywedodd SAC y byddant yn ceisio atodi'r arolwg ffôn gyda rhywfaint o grwpiau ffocws'

Pedwerydd paragraff: dileu a diwygio i : 'Dywedodd SAC eu bod yn ymgymryd â diagnostig risg digidol lefel uchel er mwyn helpu i adnabod risgiau digidol posibl ac a fyddai angen unrhyw waith archwilio perthynol pellach. Gofynnodd Aelod a oedd hyn yn perthyn yn uniongyrchol i RhDDC yn dywedodd SAC nad oedd, ond efallai byddai'n ymwneud â hyn ar lefel uchel.'

Paragraff olaf: diwygio o'r drydedd brawddeg fel a ganlyn: 'Fel rhan o 2018-19, dywedwyd wrth aelodau bod SAC yn ceisio gwneud gwaith dilynol ar Astudiaethau Llywodraeth Leol sy'n perthyn i hamdden, iechyd yr amgylchedd a diogelu corfforaethol. Bydd SAC yn ymgynghori â chynghorau ar y pynciau ar gyfer Astudiaethau Llywodraeth Leol yn y Dyfodol.' Dileer gweddill y paragraff.

81 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD - Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol ar y sail, pe bai aelodau'r cyhoedd pe yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, byddai datgeliad iddynt o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.

82 : MATERION BRYS

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad mewn perthynas ag ymchwiliad parhaus i dwyll.

83 : MATERION GWEITHREDOL

Croesawodd y Cadeirydd Neil Hanratty, Cyfarwyddwr, Ken Poole, Pennaeth Datblygu Economaidd a Tara King, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad byr.

Roedd y cyflwyniad yn grynodeb o ymagwedd y Cyfarwyddwr at lywodraethu a rheolaeth fewnol yn y Gyfarwyddiaeth. Hefyd ceisiodd y diweddariad ddarparu sicrwydd ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilwyr Mewnol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y Gyfarwyddiaeth wedi datblygu strwythur a phroses glir r gyfer rheoli a monitro'r risgiau strategol a gweithredol sy'n perthyn i'w chyfrifoldebau a'i hymrwymiadau. Rhestrwyd rhagor o fanylion ar reoli a lliniaru risgiau'r Gyfarwyddiaeth ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn yr adroddiad. Y Risgiau Corfforaethol cyfredol yw Rheoli Asedau; Rheoli Gwastraff; Methu Cwblhau Cynnal a Chadw Offer Adeiladu Statudol; a Threfniadau Diogelwch Tân mewn Adeiladau a Berchnogir gan y Cyngor.

Mae'r Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth wrthi'n ymgysylltu mewn adolygiad o Ddatganiad Sicrwydd Uwch Reolwyr y Gyfarwyddiaeth. Yn gyffredinol, mae ceir cymhwysiad cryf o ran llywodraethu a rheolaethau ar draws y gyfarwyddiaeth gyda sefyllfa well o ran adnabod a rheoli risgiau yn dilyn datblygu cofrestrau risgiau gwasanaeth ar gyfer pob tîm ar draws y gyfarwyddiaeth.

Yn nhermau atal a chanfod twyll, dywedwyd bod y Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Archwilwyr Mewnol i gytuno ar amserlen o archwiliadau drwy gydol y flwyddyn neu yn ôl y gofyn. Cedwir cofnodion o ymchwiliadau er mwyn rhoi tystiolaeth gweithredu'r Polisi Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygru a'r Polisi Disgyblu.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau am y wybodaeth a gafwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnwyd yr aelodau sut y gallai'r gyfarwyddiaeth ddangos sut mae gwerth am arian yn cael ei gyflawni. Dywedodd yr Swyddogion, ym mhob agwedd ar Ddatblygu Economaidd a Gwasanaethau Masnachol, mae gwerth am arian yn flaenoriaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi'i gyrru gan incwm ac mae gwerth am arian yn ganolog ac yn hanfodol yn nhermau datblygu contractau a chadw cwsmeriaid. Dywedodd y swyddogion, yn nhermau'r portffolio eiddo, mae ymgynghorwyr allanol n profi a gyflawnir gwerth am arian; mae gwasanaethau eraill yn cystadlu gyda'r sector preifat ac mae'r gwasanaethau hyn wedi'u prisio'n gystadleuol. Mae'r gyfarwyddiaeth yn cadw cwsmeriaid presennol ac yn ennill rhai newydd.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 20 o'r adroddiad a'r sgôr sicrwydd ar gyfer Cronfa Cyfalaf Caerdydd o 'Annigonol ag angen gwelliannau mawr'. Gwahoddwyd y Swyddogion i wneud sylwadau ar y sgôr hwn. Dywedodd Pennaeth Datblygu Economaidd y cafodd yr holl argymhellion sy'n codi o'r

adroddiad archwilio eu derbyn a rhoddwyd camau gweithredu ar waith. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gronfa wedi'i hadleoli trwy symud tuag at sicrhau ecwiti mewn busnesau newydd ac i ffwrdd o ddarparu benthyciadau ar gyfer busnesau sy'n cychwyn. Y canlyniad a ragwelwyd oedd y bydd rhyddhau ecwiti yn cynhyrchu enillion cyfalaf. Cadarnhaodd y swyddogion fod cydweithwyr yn yr adran Archwilio Mewnol yn monitro cymhwyso'r cynllun gweithredu ac y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw swyddogion yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth o doriadau sylweddol o'r rheoliadau Iechyd a Diogelwch neu Ddiogelwch Tân. Nododd y Swyddogion y cafodd cladin a mesurau diogelwch tân ym mhob ased y Cyngor o fewn yr ystâd annomestig eu hadolygu. Ar gam hwn y casglu gwybodaeth, ni adroddwyd am unrhyw faterion mawr o ran peidio â chydymffurfio. Ar hyn o bryd nid yw swyddogion yn ymwybodol o unrhyw doriadau, ond os digwydd bod unrhyw rai yn cael eu canfod, câi'r toriadau hynny eu hadrodd i'r Bwrdd Iechyd a Diogelwch.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr mai prif ddarganfyddiad yr adolygiad oedd bod angen datblygu darlun llawn o gyfrifoldebau statudol y Gyfarwyddiaeth a gwnaethpwyd ymdrechion i fynd i'r afael â'r angen hwnnw. Cafodd y system RAMIS ei gweithredu. Mae'r system RAMIS yn cofnodi ac yn storio ardystiad cydymffurfio statudol ar draws ystod eang o feysydd gan gynnwys diogelwch tân a diogelwch trydan. Mae rhaglen o archwiliadau diogelwch yn cael ei chynnal ar bob adeilad o fewn yr ystâd a chafodd cytundebau tenantiaeth newydd eu cyflwyno rhwng yr awdurdod a'i denantiaid, gan gynnwys ysgolion, er mwyn gwella eglurder yn nhermau pwy sy'n gyfrifol am beth. Bellach roedd y gyfarwyddiaeth mewn sefyllfa lawer gwell ond roedd tipyn o ffordd i fynd o hyd. Mae'r system RAMIS yn gofyn i bob tystysgrif diogelwch gael ei rhoi i mewn ac mae gofyn o hyd am dystysgrifau mewn tua 30% o'r adeiladau.

- Gofynnodd yr Aelodau pa wersi a ddysgwyd wrth i'r ddinas gynnal digwyddiadau mawr yn nhermau cyfarwyddiaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr effaith ar breswylwyr yn cael ei lleihau. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth Aelodau fod proses llywodraethu wedi'i chyflwyno sy'n cynnwys sefydlu bwrdd o randdeiliaid pwysig. Yn dilyn pryderon a fynegwyd gan Aelodau'r gymuned fusnes yn nhermau effaith digwyddiadau mawr ar fasnach, mae'r grŵp rhanddeiliaid bellach yn cynnwys Aelod o'r Bwrdd Cylch Gwella Busnes. Mae strwythurau llwyodraethu a gorchymyn ffurfiol ar waith a chynhelir cyfarfodydd ôl-drafodaeth ar ôl pob digwyddiad.

- Gofynnwyd i Swyddogion wneud sylwadau ar y posibilrwydd o fethu bwrw targedau gwastraff tirlenwi. Dywedodd y Swyddogion fod dau darged – gwyro tirlenwi a pherfformiad ailgylchu. Mae'r gyfarwyddiaeth yn rhagori ar ei darged gwyro tirlenwi, ond mae perfformiad ailgylchu yn parhau yn heriol. Mae marchnadoedd rhyngwladol ar gyfer deunyddiau a ailgylchwyd yn lleihau ac roedd hyn wedi bod yn risg yn nhermau symud deunyddiau a ailgylchwyd ymlaen. Dylai casgliadau ymyl y ffordd a CAGCau roi cyfleodd i wella perfformiad. Bydd y Strategaeth Rheoli Gwastraff newydd yn mynd i'r afael â meysydd allweddol.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

84 : SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR CYHOEDDUS

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn gofyn bod asesiad allanol yn cael ei gynnal o leiaf unwaith pob pum mlynedd gan aseswr annibynnol cymwys neu dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad. Mae Prif Weithredwr Archwilio Rhondda Cynon Taf wedi cynnal asesiad Caerdydd. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn darparu diweddariad i Aelodau ar asesiad y tîm archwilio.

Croesawodd y Cadeirydd Marc Crumbie o Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Darparodd Mr Crumbie drosolwg o’r broses asesu a’r canlyniadau.

Gofynnwyd i aelodau nodi’r Cynllun Gweithredu a atodir i’r adroddiad. Cafodd nifer o gamau gweithredu eu rhoi ar waith eisoes, ac roedd rhai ohonynt yn gynwysedig mewn adroddiadau dilynol yn y cyfarfod hwn. Caiff y Cynllun Gwella Archwilio Ansawdd ei adrodd yng nghyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor.

Gofynnodd Aelod pam na ymgymerwyd â'r adolygiad gan swyddog gan y Grŵp Dinasoedd Craidd. Dywedodd Pennaeth yr Adran Gyllid fod y Grŵp Archwilwyr Cymru y naill a'r llall wedi cytuno ar y cylch hwn o adolygiadau ddwy flynedd yn ôl. Mae adolygiad gan gydweithwyr yn y Grŵp Dinasoedd Craidd yn parhau'n opsiwn, fodd bynnag wrth ystyried cost a lleoliad, ymgymerwyd â’r adolygiad yng Nghymru. Derbyniodd aelodau sicrwydd fod arfer gorau yn cael ei rannu gyda’r grŵp dinasoedd craidd.

Gofynnodd Aelod a allai ffurfio'r Cynllun Archwilio Mewnol fod yn perthyn yn gliriach i risg ac a oedd unrhyw bosibilrwydd o ddefnyddio’r Gofrestr Risg Corfforaethol (CRR) fel gyrrywr. Cadarnhaodd Mark Crumbie y caiff y CRR ei defnyddio fel ffynhonnell gwybodaeth a gallai’r Cynllun Archwilio fod yn fwy manwl yn nhermau cynghori’r Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor yr ymgynghorir â nhw o hyd cyn yr asesiad PSIAS nesaf.

PENDERFYNWYD - y caiff cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

85 : DIWEDDARIAD AR GYLLID (GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH ARIANNOL)

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar sefyllfa ariannol y Cyngor gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o’r sefyllfa monitro mis 9. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad monitro mis 9 ar 15 Chwefror 2018. Dangosodd yr adroddiad sefyllfa gytbwys yn unol â’r sefyllfa yr adroddwyd amdani ym mis 6. Fodd bynnag, mae’r sefyllfa gyffredinol wedi newid oherwydd cynnydd yn y gorwariant ar gyllidebau’r gyfarwyddiaeth o ganlyniad i ragor o bwysau o fewn Gwasanaethau Plant, cynnydd yn y rhagamcaniad ar gyfer costau cyllido cyfalaf a gwarged llai ar gasglu'r Dreth Gyngor. Cafodd y rhain eu gosod yn erbyn cynnydd arall mewn ad-daliadau NDR ar eiddo'r Cyngor ac yn erbyn cynnydd yn yr arbediad a ragamcenir ar gyllidebau yswiriant yn y flwyddyn gyfredol.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y sefyllfa gyffredinol yn parhau i adlewyrchu ystod o bwysau demograffig, gwasanaethau a phwysau ariannol eraill gan gynnwys diffygion yn erbyn targedau arbedion cyllidebol a gorwario mewn perthynas â chostau cyllid cyfalaf, yr anfonwyd manylion ohonynt allan yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o gyllideb 2018/29 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP). Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod Cylliedeb 2018/19 ac ymrwymiadau MTFP wedi'u halinio â'r blaenoriaethau a restrwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Gofynnwyd i aelodau nodi'r posibilrwydd am fwlch yn y gyllideb o £91.4 miliwn dros gyfnod o dair blynedd a'r dadansoddiad 'sefyllfa waethaf' sy'n dangos bwlch posibl yn y gyllideb o £117.4 miliwn. Rhestrodd adroddiad y gyllideb ystod o fesurau ac arbedion cyllidebol yn seiliedig ar themâu i fynd i'r afael â'r bwlch sylfaen posibl yn y gyllideb.

Gofynodd yr Aelodau a oedd y rheolaethau ar gyfer cyfrif aelodau staff yn gadarn. Dywedodd yr Swyddogion fod cyllidebau yn gyfrifoldeb ar gyfarwyddwyr unigol. Mae'r system recriwtio corfforaethol – Digigov – yn gysylltiedig â'r sefydliad ac mae ac mae angen i benderfyniadau ar swyddi newydd/swyddi gwag gael eu cymeradwyo gan gyfrifyddion cyn cael eu cymeradwyo gan uwch reolwr o fewn y gyfarwyddiaeth.

Gofynnodd Aelod pa fodelu yr ymgymerwyd ag ef er mwyn asesu effaith dirwasgiad ar ffrydiau incwm. Dywedodd y Swyddog yr ymgymerwyd â modelu ar incwm/galw ond mae'n ystyried ystod o ffactorau megis amodau'r farchnad, cystadleuwyr, hoffterau cwsmeriaid yn newid, incwm ayyb. Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad ar gynhyrchu incwm yng nghyfarfod mis Medi.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r wybodaeth ariannol a roddwyd mewn perthynas â'r sefyllfa fonitro a chanlyniad y gyllideb ar gyfer 2018/19 a'r tymor canolig.

Cyllid

86 : Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2017-18

Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) cyn iddo gael ei gymeradwyo ac i ystyried a yw'n adlewyrchu'n iawn yr amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol. Hefyd mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu da.

Bydd yr AGS yn ffurfio rhan o Ddatganiad Cyfrifon yn Cyngor 2017/18. Cafodd yr AGS drafft a atodir i'r adroddiad yn Atodiad A ei baratoi cyn diwedd y flwyddyn ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys nifer o fylchau oherwydd bod llawer o'r gweithgareddau adolygu yn digwydd ar ôl y flwyddyn ariannol.

Mae'r AGS yn crynhoi asesiad y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu trwy dair elfen:

- Datganiadau gan y Rheolwr Archwilio, y Pwyllgor Archwilio a'r Uwch reolwyr
- Adolygiad gan yr Uwch-reolwyr o faterion llywodraethu sylweddol y Cyngor
- Mapio gwybodaeth a thystiolaeth ategol i'r craidd a chefnogi egwyddorion llywodraethu da fframwaith CIPFA

Caiff barn y Pwyllgor Archwilio o'i Adroddiad Blynyddol ei chynnwys yn yr AGS ynghyd â'r datganiadau o'r Rheolwr Archwilio a'r Uwch Reolwyr ar y system o reolaeth fewnol ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff y rhain eu cymeradwyo a'u hychwanegu i'r AGS yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae cynllun gweithredu materion llywodraethu sylweddol wedi'i berchnogi a'i gynnal a'i gadw gan yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh). Mae'r Prif Weithredwr a'r holl Gyfarwyddwyr yn adolygu'r cynllun gweithredu bob dwy flynedd ac yn cyfarfod i drafod a chytuno ar gynnydd a wnaed, unrhyw newidiadau a chamau gweithredu sy'n ofynnol. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio y Cynllun Gweithredu ganol blwyddyn o'r UDRh ym mis Ionawr 2018 a chaiff y cynllun gweithredu ar ddiwedd y flwyddyn ei adrodd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2018.

Hefyd cafodd yr AGS ei boblogi gan wybodaeth ategol yn erbyn pob un o'r egwyddorion craidd a chefnogi llywodraethu da Fframwaith Llywodraethu CIPFA.

Nododd yr Aelodau fod y Cabinet wedi cymeradwyo'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas i gymryd lle Rhaglen Datblygu Sefydliadol y Cyngor (ODP). Dilynodd sefydlu'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas adolygiad annibynnol o'r ODP ym mis Mai 2017, a ddaeth i'r casgliad bod yr ODP wedi cyflawni ei ddiben yn y bôn ac y dylai ganiatáu i'r Cyngor ymateb ac addasu i'r amgylchedd gweithredol cyfnewidiol. Gofynnodd yr aelodau a fyddai unrhyw fudd mewn gwahodd yr rhai sy'n gyfrifol am y rhaglen cyflawni Uchelgais Dinas i ymddangos o flaen y Pwyllgor. Cytunodd Swyddogion i gylchredeg darganfyddiadau'r adolygiad cyn cyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor, pan fyddai'r Prif Weithredwr yn bresennol.

PENDERFYNWYD – Y câi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ei nodi.

87 : COFRESTR RISGIAU CORFFORAETHOL DIWEDDARIAD CH3 (I GYNNWYS MAP RISGIAU CORFFORAETHOL)

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddodd ddiweddariad ar sefyllfa rheoli risg y Cyngor yn Chwarter 3 2017/18. Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn Chwarter 3, adroddwyd am 349 o risgiau o Gofrestrau Risg Cyfarwyddiaethau. Cafodd pob risg wedi'i esgoli a cheisiadau am ddad-esgoli eu cymeradwyo gan yr UDRh ar 13 Mawrth 2018. Byddai cyfanswm o 14 o risgiau y cael eu cario ymlaen fel risgiau wedi'u hesgoli yr UDRh yn Chwarter 3.

Adolygodd yr UDRh bob risg wedi'i esgoli. Yn dilyn yr adolygiad, cafodd sgorau gweddilliol y Risgiau Corfforaethol canlynol eu haddasu:

- Ansawdd Aer
- Newid yn yr Hinsawdd a Diogelwch Ynni

Cafodd risgiau newydd ar 'Erydu Arfordirol' a 'Chyflawni'r Rhaglen Uchelgais Prifddinas' eu hychwanegu i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Trafododd y Pwyllgor a oedd y risg Erydu Arfordirol yn destun unrhyw asesiad ac a oedd unrhyw gynlluniau cyfwng neu gynlluniau argyfwng wedi'u cynrychioli yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Cadarnhawyd bod y risg o erydu arfordirol yn seiliedig ar ddadansoddiad amgylcheddol a bod y risg Cysondeb Busnes yn ffocysu ar gynllunio cyfwng ac argyfwng. Cododd Aelodau bryderon fod rheolaethau Erydu

Arfordirol yn ymddangos nad ydynt ar waith a'u mewnosod yn y CRR. Rhagwelwyd y câi datganiad echblyg yn nhermau rheoli Erydu Arfordirol ei ddarparu o fewn y CRR.

Gofynnwyd i swyddogion wneud sylwadau ar esblygiad nifer o Gerbydau Diben Arbennig (SPV) o fewn rhanbarth y Ddinas ac yn benodol y trefniadau llywodraethu ar gyfer trafodion 'oddi ar y fantolen'. Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid yr Aelodau at yr Adroddiad ar Orsaf Fysiau Ganolog Caerdydd a gafodd ei ystyried gan y Cabinet ar 28 Mawrth 2018. Mae Cyngor Sir Fynwy yn arwain ar y project Lled-ddargludyddion a chafodd adroddiad ei gyflwyno i'r Cabinet Prifddinas-Ranbarth yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

Llywodraethu a Rheoli Risg

88 : CYNLLUN BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN CAERDYDD A'R FRO

*Datganodd D. Hugh Thomas a'r Cynghorydd Bale fuddiant yn yr eitem hon fel aelodau o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro.*

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Cynllun Archwilio Blynyddol Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro yn seiliedig ar risg. Rhestrwyd manylion o'r ymagwedd sy'n seiliedig ar risg a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

89 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn darparu gwybodaeth ar berfformiad y trysorlys a datganiad o'r sefyllfa ar Reoli'r Trysorlys ar 28 Chwefror 2018.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr Archwilwyr Mewnol wedi ymgymryd ag adolygiad o'r swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys ym mid Chwefror 2018 ac roedd lefel y sicrwydd a ddarparwyd yn 'Effeithiol, gyda chyfle i wella'. Yr argymhellion yw i ystyried unrhyw ofynion o dan y cod rheoli trysorlys CIPFA a ddiweddarwyd yn 2018/19 ac ystyried prosesau cymeradwyo ychwanegol ar gyfer CHAPS/Taliadau Cyflymach y mae'n ofynnol eu gwneud gan y staff Rheoli'r Trysorlys. Caiff y rhain eu datblygu yn 2018/19 fel rhan o ymateb y rheolwyr i'r argymhellion.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, cadarnhaodd swyddogion fod benthyca yn cael ei wneud ar raddfeydd llog sefydlog ac mae cosbau ar gyfer ad-dalu'n gynnar. Caiff pob ad-daliadau eu cynnwys yn y gyllideb sylfaenol.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

Swyddfa Archwilio Cymru

90 : TÎM ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd Pennaeth yr Adran Gyllid adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar waith y Tîm Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn, ar 28 Chwefror 2018. Atodwyd yr adroddiad ar Gynnydd yr Archwiliad Mewnol ar Atodiad A. Rhoddodd yr adroddiad ar gynnydd fanylion ar berfformiad y tîm archwilio gan gyfeirio at y Cynllun Archwilio, yn amlinellu'r heriau sy'n wynebu'r tîm archwilio, camau adferol sy'n cael eu cymryd a'r

wybodaeth a ddarperir i’r Pwyllgor Archwilio er mwyn rhoi sicrwydd bod rheolaethau mewnol yn cael eu cynnwys.

Gofynnwyd i’r aelodau sylwi bod 69% o’r archwiliadau yn y Cynllun Archwilio wedi’u cwblhau a byddai 11% arall yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rhoddodd Atodiad C yr adroddiad fanylion o’r argymhellion archwilio a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn a'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion hynny hyd yn hyn. Cafodd 58% o’r argymhellion y cytunwyd arnynt eu gweithredu.

Cyfeiriodd Aelod at Dudalen 265, Atodiad A a nododd fod y barn am archwiliad o GLL yn ‘Annigonol, ac mae angen gwelliannau mawr'. Adroddodd Pennaeth yr Adran Gyllid y cafodd yr adroddiad archwilio ar GLL ei ddosbarthu ac mae'r swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr o fewn y gyfarwyddiaeth ar yr argymhellion. Caiff yr argymhellion eu hadrodd i gyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r newid arfaethedig i'r cynllun archwilio ar gyfer 2017/18 er mwyn mynd i’r afael â’r diffyg o ran nifer y diwrnodau archwilio.

91 : TÎM YMCHWILIO

Cyflwynodd Pennaeth yr Adran Gyllid adroddiad i roi diweddariad ar waith Tîm Ymchwilio'r Adran Archwilio ar gyfer y flwyddyn, ar 14 Mawrth 2018.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod nifer yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn rhagori ar y cyfanswm am yr un cyfnod y llynedd. Yn bennaf mae ymchwiliadau ad hoc yn gysylltiedig â chyflogeion ac yn gysylltiedig â materion disgyblu parhaus a amheuaeth bosibl o dwyll. Roedd gwerth yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn fwy na £190,000.

Nododd yr aelodau yr adroddiad ar gynnydd sy’n gynwysedig yn Atodiad A. Dywedodd Aelod fod thema gyffredin yn aml pan fydd twyll yn dod i'r amlwg bod 'epidemig' neu weithgarwch. Gofynnwyd i Swyddogion a oedd unrhyw bosibilrwydd o ymchwiliadau pellach. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y câi unrhyw ymchwiliadau yn y dyfodol eu hadrodd maes o law.

Nododd y Swyddogion na chafodd unrhyw adnoddau Archwilio eu defnyddio i ategu ymchwiliadau ac felly ni châi'r Cynllun Archwilio ei beryglu.

Gofynnodd Aelod a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu i atgyfnerthu'r Polisi Chwythu’r Chwiban oherwydd y gall aelodau staff gael effaith fawr ar enw da sefydliadau. Dywedodd Swyddogion y cafodd y Polisi Chwythu'r Chwiban ei gynnwys ar y briff craidd er mwyn rhoi sicrwydd ac annog y staff i ddod â phryderon ymlaen.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

Rheoli'r Drysorlys

92 : POLISI TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGRU 2017

Derbyniodd y Pwyllgor y Polisi Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygru diwygiedig 2017 a gofynnwyd i'r Aelodau ei ystyried.

PENDERFYNWYD - Bod:

(1) Y diweddariad ar y polisi yn cael ei gymeradwyo;

(2) Y rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Adran 151 i gymeradwyo mân ddiwygiadau i'r Polisi.

93 : GOHEBIAETH GRAFFU

N dderbyniwyd unrhyw Ohebiaeth Graffu.

Archwiliad Mewnol

94 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Amserlennir i gyfarfod nesaf y Pwyllgor gael ei gynnal ar 26 Mehefin 2018, yn amodol ar gymeradwyaeth yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 24 Mai 2018.

95 : DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT/AGS AC ADRODD UNRHYW NEWIDIADAU YN Y POLISI CYFRIFYDDU

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi cyfrifon gan ddefnyddio Cod Ymarfer a ddatblygwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA). Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y Polisïau Cyfrifeg 2017/18 drafft a newidiadau i God Ymarfer 2017/18.

Adroddodd Swyddogion nad oes unrhyw newidiadau i'r Cod ar gyfer 2017/18. Roedd y prif newid yn 2018/19 yn perthyn i ymgorffori Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 9 – Offerynnau Ariannol. Cafodd hyn ei ddatblygu mewn ymateb i'r argyfwng ariannol byd-eang ac mae wedi'i ddatblygu i gynnwys yr offerynnau ariannol soffistigedig a ddefnyddir yn aml mewn marchnadoedd ariannol. Ni ddisgwyliwyd y byddai'n cael goblygiadau sylweddol i'r Cyngor.

PENDERFYNWYD - Bod:

(1) Y Pwyllgor yn nodi'r polisïau cyfrifeg drafft a'r rhagdybiaethau i'w defnyddio wrth ddarparu'r datganiad cyfrifon ar gyfer 2017/18 a'r tu hwnt;

(2) Mae'r Pwyllgor yn nodi'r newidiadau i ofynion llywodraethu ar gyfer cyfrifon y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn i ddod.

96 : CYNLLUN ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2018

Gwahoddodd y Cadeirydd Phil Pugh o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i gyflwyno Cynllun Archwilio SAC 2018. Derbyniodd y Pwyllgor grynodeb o'r Cynllun Archwilio a dadansoddiad o'r strwythur ffioedd ar gyfer 2018.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y ffioedd wedi'u clymu i ddosbarthiad diwrnodau archwilio. Pe bai hyn yn wir, awgrymodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld sut y mae'r ffioedd yn perthyn i aelodau'r tîm. Cadarnhaodd Phil Pugh fod ffioedd yn perthynol i nifer y diwrnodau archwilio a chytunodd i ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyfrifo ffioedd i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

97 : ARFERION RHEOLI'R TRYSORLYS

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

98 : SIARTR ARCHWILIO FEWNOL DERFYNOL 2018-19 A CHYNLLUN ARCHWILIO TERFYNOL 2018-19

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo:

(1) Y Siarter Archwilio Mewnol 2018-19 a'r cylch gorchwyl;

(2) Y Cynllun Archwilio Terfynol 2018-19.

99 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Nodwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor Archwilio.

Materion Gweithredol

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm